



CYNGOR IECHYD CYMUNED  
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

BAE ABERTAWE | SWANSEA BAY

**Gwasanaethau y  
tu allan i'r  
ysbyty – Gadael  
yr ysbyty:  
Adroddiad  
Dilynol ar  
Brofiad y Claf  
Mai 2019**

# Gwybodaeth am Gyngor Iechyd Cymuned (CIC) Bae Abertawe

## Cynnwys

	<b>Tudalen:</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Cefndir</b>	<b>3</b>
<b>Beth wnaethom ni</b>	<b>4</b>
<b>Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni</b>	<b>5</b>
<b>Dysgu o'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym</b>	<b>11</b>
<b>Cysylltwch â ni</b>	<b>13</b>

## Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu archebu copi trwy gysylltu â'n swyddfa (manylion cyswllt uchod).

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gynhyrchu gan Gyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe, gynt yn dwyn yr enw Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg (CIC ABM) a oedd, hyd at 1 Ebrill 2019, yn gorff gwarchod annibynnol yn edrych ar wasanaethau'r GIG ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Mae CIC Bae Abertawe bellach yn cwmpasu ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Rydym yn ceisio annog a galluogi aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar ddarparu gofal iechyd i'w teuluoedd a'u cymunedau lleol.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG a chyrrff rheoleiddio i ddarparu'r cyswllt hanfodol rhwng y rheini sy'n cynllunio ac yn darparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, y rhai sy'n ei reoleiddio a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.

Mae CIC Bae Abertawe yn clywed oddi wrth y cyhoedd trwy ystod eang o rwydweithiau cymunedol, cysylltiadau uniongyrchol â chleifion, teuluoedd a gofalwyr, trwy ymholiadau, ein gwasanaeth eirioli cwynion, ymweliadau â gwasanaethau'r GIG a thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r adborth a gawsom gan bobl am eu profiad o gael eu rhyddhau o'r ysbyty rhwng Mehefin a Rhagfyr 2018.

## Cefndir

Pan siaradodd CIC ABM â phobl yn 2016/17 am wasanaethau canser a strôc, roedd rhyddhau o'r ysbyty yn un ardal lle y lleisiwyd pryderon. Yn ystod 2017 a dechrau 2018, aeth CIC ABM â hyn ymhellach gan ofyn am brofiad pobl ynghylch cael eu rhyddhau o'r ysbyty. O ganlyniad i adroddiad 2017/18, argymhellodd y CIC y dylai'r Bwrdd Iechyd:

1. Ganolbwyntio ar wella cyfathrebu rhwng gwasanaethau wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Dylai hyn leihau oedi a gwallau a sicrhau bod gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty yn eu lle pan fo angen.
2. Dylai cleifion a'u gofalwyr gymryd rhan lawn wrth gynllunio ar gyfer cael eu rhyddhau o'r ysbyty.
3. Dylai pawb sy'n gadael yr ysbyty gael gwybodaeth glir am yr hyn i'w ddisgwyl, beth mae angen iddynt ei wneud er mwyn helpu eu hadferiad a phwy i gysylltu â hwy os ydynt yn pryderu.
4. Adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd gan Wasanaeth Profiad y Claf a Chyngor i Gleifion (PEAS) yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i gasglu adborth yn rheolaidd oddi wrth bobl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty a'r rhai hynny sy'n derbyn gofal y tu allan i'r ysbyty. Byddai hyn yn cefnogi gwerthuso ffyrdd newydd o weithio, yn nodi materion cyffredin ac yn cefnogi dysgu ar y cyd rhwng Cyfarwyddiaethau.

Dros gyfnod o 6 mis, fe wnaeth CIC ABM gasglu adborth pellach oddi wrth bobl ynghylch cael eu rhyddhau o'r ysbyty i weld a weithredwyd ar yr argymhellion a gyflwynwyd gan y CIC.

## **Beth wnaethom ni**

Yn ystod misoedd Mehefin i Ragfyr 2018, gofynnodd aelodau'r CIC am farn a phrofiadau pobl tra'r oeddent yn y gymuned. Fe siaradon ni â phobl mewn derbynfydd ysbytai, canolfannau siopa ac mewn digwyddiadau lleol. Gofynnwyd i unrhyw un a oedd wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf (neu a oedd yn gofalu am rywun a oedd wedi bod) i ddweud wrthym am eu profiad o gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Rhannodd 34 o bobl eu profiad gyda ni yn y modd hwn.

Unwaith eto, buom yn gweithio gyda tîm Gwasanaeth Profiad y Claf a Chyngor i Gleifion (PEAS) yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i ofyn am adborth gan bobl a gafodd eu rhyddhau yn ystod y cyfnod hwn.

Gofynnodd y tîm Gwasanaeth Profiad y Claf a Chyngor i Gleifion (PEAS) i gleifion i fynd â ffurflen arolwg y CIC adref gyda nhw pan gawsant eu rhyddhau o'r ysbyty a'i hanfon yn ôl i'r CIC ar ôl ychydig wythnosau.

Mae ein hadroddiad yn cyflwyno adborth gan gleifion a/neu eu teuluoedd a dderbyniodd ofal yn ysbytai Treforys, Castell-nedd Port Talbot, Tywysoges Cymru a Singleton.

## Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni

### Cynlluniau ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty

Dywedodd dwy ran o dair o'r bobl wrthym fod cynllun ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty wedi'i drefnu gyda nhw neu'u teulu.

Roedd ychydig dros hanner y bobl hyn yn teimlo bod staff yr ysbyty wedi ystyried eu sefyllfa deuluol neu'u sefyllfa gartref a'u bod wedi bod yn rhan o'r penderfyniadau. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl hyn yn teimlo bod y cynlluniau'n diwallu eu hanghenion.

'Aeth popeth yn esmwyth'

'Cefais gyflenwadau gyda'r cathetr'

'Teimlai meddygon yn ysbyty Castell-nedd Port Talbot na fyddwn yn gwneud unrhyw gynnydd pellach yno. Teimlwyd y buasai'n well i mi fynd i Blas Bryn Rhosyn. Roedd gen i bryderon y byddai ond am 6 wythnos, ond mae popeth yn mynd yn dda'

Dywedodd nifer sylweddol o bobl (traean) wrthym nad oeddent wedi cael eu cynnwys mewn cynllun rhyddhau o'r ysbyty.

'Nid oeddem yn gwybod beth oedd y cynllun, hyd y gwyddom, nid oedd cynllun wedi'i baratoi'

Fe'n hysbyswyd y byddem yn cael y cynllun rhyddhau cywir, ond yn anffodus, cafodd yr un anghywir ei roi ar waith, y Tîm Adnoddau Cymunedol yn hytrach na gofal lliniarol'

'Cefais wybod y byddai'r Nyrs Ardal yn ymweld y diwrnod canlynol. Gwrthododd y Nyrs Ardal, ffoniodd y Nyrs Ardal y ward,

cawsom alwad gan Brif Nyrs y Ward yn dweud wrthym am ffonio'r Meddyg Teulu os oedd y clwyf wedi'i heintio'

'Llawer o addewidion wedi'u gwneud, dim un addewid wedi'i gadw'

'Apwyntiad dilynol heb ei wneud'

Fe ofynnion ni i bobl a oedd staff wedi trafod a fyddai angen unrhyw wasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol pellach arnynt ar ôl gadael yr ysbyty.

Dywedodd hanner y bobl wrthym fod staff wedi trafod a fyddai angen cymorth pellach. Roedd hyn yn cynnwys gofal cartref, nyrsys cymunedol, adsefydlu a/neu ffisiotherapi.

Roedd yr ymateb gan eraill yn fwy cymysg. Dywedodd chwarter y byddent wedi hoffi cael y drafodaeth honno ond nad oeddent wedi cael y cyfle; dywedodd eraill wrthym nad oeddent yn credu bod angen gwneud hynny.

### **Paratodau ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty**

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl wrthym eu bod wedi cael digon o rybudd ynglŷn â chael eu rhyddhau o'r ysbyty, ond teimlai 6 o'r 34 o bobl nad oedd yr amseriad y cawsant eu rhyddhau yn unol â'u dymuniadau.

Dim ond 3 o bobl a ddywedodd wrthym eu bod wedi cael eu cadw yn yr ysbyty yn hirach nag yr oeddent yn dymuno wrth iddynt aros am drefniadau cymorth parhaus gael eu rhoi ar waith. Roedd

hyn yn cynnwys addasiadau i'w pecynnau cartref a/neu becynnau gofal. Roedd yr oedi yn amrywio rhwng 2 ddiwrnod ac 1 wythnos.

Dyweddodd 10 o bobl wrthym fod eu trefniadau ar gyfer cael eu rhyddhau o'r ysbyty wedi'u gohirio ar y diwrnod, a'r rhesymau am hyn oedd:

- Aros am ambiwlans neu gludiant
- Aros am feddyginiaeth
- Aros i weld meddyg

Dyweddodd cleifion wrthym eu bod wedi aros rhwng 2 a 4 awr.

Fe ofynnion ni i bobl a oeddent yn teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth pan adawsant yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys beth i'w ddisgwyl ac unrhyw beth y dylent ei wneud, neu osgoi ei wneud, i'w helpu i wella.

Cawsom ymatebion gwahanol iawn i'r cwestiwn hwn. Ni chawsom ymateb gan gleifion Ysbyty Tywysoges Cymru. Dywedodd mwyafrif y cleifion o ysbytai Treforys, Singleton a Chastell-nedd Port Talbot wrthym fod ganddynt ddigon o wybodaeth, ond dywedodd y rhai na chafodd ddigon o wybodaeth wrthym:

'Yn disgwyl Ffisiotherapydd, ond hyd yn hyn nid oes neb wedi cysylltu ynglŷn ag un'

'Ddim yn siŵr beth oedd y pecyn gofal'

'Dim arweiniad ar beth sy'n digwydd ar ôl gadael yr ysbyty na beth i'w ddisgwyl o safbwynt adferiad'

'Wedi derbyn gwybodaeth ar gyfer cymorth o'r gwasanaethau cymdeithasol, ond nid oedd gwybodaeth ar gael'



Fe ofynnon ni a oedd pobl yn gwybod â phwy y dylent gysylltu os oedd angen cymorth neu gyngor arnynt neu a oedd problem gyda'u gofal. Dim ond 10 o bobl yn y 4 ysbyty a ddywedodd eu bod yn gwybod â phwy y dylent gysylltu.

Daeth chwarter yr ymatebion o bob un o'r 4 ysbyty lle dywedodd pobl wrthym nad oeddent wedi cael gwybodaeth glir am eu meddyginiaeth.

Dywedodd pawb wrthym fod eu holl eiddo wedi bod ar gael i'w gymryd adref.

## **Yn dilyn rhyddhau o'r ysbyty**

Roeddem am wybod a oedd pobl wedi profi unrhyw broblemau gyda gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty fel nyrsio cymunedol/nyrsio ardal, ffisiotherapi neu offer ar gyfer y cartref fel y trefnwyd.

Ni nodwyd unrhyw broblemau gan y rhai a oedd newydd gael eu rhyddhau o ysbytai Tywysoges Cymru a Singleton.

Roedd yr adborth o'r 2 ysbyty arall yn gymysg, dywedodd nifer o bobl wrthym eu bod yn derbyn y gofal parhaus yr oedd ei angen arnynt ond dywedodd traean wrthym nad oeddent yn hapus gyda'r gofal yr oeddent wedi'i dderbyn y tu allan i'r ysbyty.

'Dylai'r gofal cartref fod wedi'i drefnu tair gwaith y dydd, ond dywedwyd wrthym na allent ond wneud dwywaith y dydd'  
'Heb weld ffisiotherapydd, wedi bod gartref 3 wythnos ac yn dal i

aros'

'Dim cyswllt am 3 wythnos'

'Yn aros am fyngalo'

'Prynu fy offer fy hun, dim gwasanaethau cymdeithasol fel yr addawyd'

Fe ofynnion ni i bobl a oeddent wedi cael gwybod a oedd llythyr rhyddhau o'r ysbyty wedi cael ei anfon at eu Meddyg Teulu ac a oeddent wedi cael copi. Dywedodd ychydig o dan hanner y cleifion o'r 4 ysbyty wrthym eu bod wedi cael gwybod bod llythyr wedi cael ei anfon, ond dim ond cleifion yn ysbytai Castell-nedd Port Talbot a Threforys a ddywedodd eu bod wedi derbyn copi.

Roeddem am wybod a oedd cleifion a'u teuluoedd yn fodlon â'r gofal a gawsant 'y tu allan i'r ysbyty'. Dywedodd y mwyafrif o gleifion wrthym eu bod yn fodlon ond dywedodd y rhai nad oedd:

'Ni dderbyniwyd dim'

'Roedd problemau gyda'r tîm ailalluogi yn gwrthod codi allan o'r gwely am 9 diwrnod oherwydd anhawster gyda charped. Ni roddwyd unrhyw rybudd, dim ond galwad ffôn i ddweud na fyddent yn gallu codi allan o'r gwely'

'Yn gorfod gweld Meddyg Teulu er mwyn cael atgyfeiriad at dîm strôc'

'Dim gofal yn y gymuned'

'Heb gael unrhyw ofal, hyn yn arwain at fynd yn ôl i mewn i'r ysbyty am yr ail dro'

'Ddim yn hapus nes i nyrsys Macmillan gymryd rhan'

'Nid yw'n hawdd cael mynediad at y Meddyg Teulu, ni roddwyd unrhyw wybodaeth i'r clinig diabetes'

Roeddem am gael gwybod a oedd cleifion yn cael cymorth parhaus os oedd ei angen. Dywedodd 6 o gleifion wrthym nad oeddent yn derbyn cymorth ond eu bod yn teimlo bod angen cymorth arnynt, gweler y sylwadau:

'Rwyf wedi cael cefnogaeth fy ffrindiau drwy gydol yr amser. Byddai cysylltiad rhwng y Gwasanaeth Cymdeithasol wedi bod yn ddefnyddiol. Derbyniais rywfaint o ofal gyda chyfleusterau ond rwyf wedi bod yn ddibynnol ar ffrindiau'

'Cefais fy rhyddhau o'r ysbyty i'm cartref heb y pecyn gofal cywir, mae hyn wedi bod yn anodd i ddygymod ag ef'

'Byddai cyfathrebu gwell rhwng Therapyddion Galwedigaethol yr ysbyty a'r Therapyddion Galwedigaethol eraill (3 ohonynt) wedi rhoi llai o ofid a straen i ni. Roedd cael fy nghodi allan o'r gwely am wythnos a hanner a gorfod aros yn y gwely heb ffisiotherapi a symudedd am dros wythnos wedi achosi llawer o bryder i mi'

'Rydw i am iddynt ddarparu'r pecyn gofal a addawyd'

'Methu â chael apwyntiad gyda'r Meddyg Teulu i drafod gofal parhaus am sawl wythnos ar ôl i mi gael fy rhyddhau o'r ysbyty'

## **Dysgu o'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym**

Roedd yr adborth o'r cyfnod ymgysylltu hwn yn gymysg gyda nifer o bobl yn dweud iddynt gael profiad positif wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty ond eraill yn tynnu sylw at faterion tebyg i'r rhai a nodwyd yn adroddiad y CIC - 'Gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty - Gadael yr ysbyty: Adroddiad ar Brofiad y Claf - Chwefror 2018.'

Unwaith eto, dywedodd pobl wrthym nad oeddynt wedi bod yn rhan o'r cynllunio wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty a bod ganddynt ddiffyg gwybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl neu bwy i gysylltu â hwy am gymorth ar ôl iddynt adael yr ysbyty.

Unwaith eto, dywedodd pobl wrthym eu bod wedi profi oedi neu broblemau wrth geisio cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt y tu allan i'r ysbyty.

### **Unwaith eto, byddem yn argymhell y:**

Dylai'r bwrdd iechyd ganolbwyntio ar wella cyfathrebu rhwng gwasanaethau wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Dylai hyn leihau oedi a gwallau a sicrhau bod gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty yn eu lle pan fo angen.

Dylai cleifion a'u gofalwyr gymryd rhan lawn wrth gynllunio ar gyfer cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Dylai pawb sy'n gadael yr ysbyty gael gwybodaeth glir am yr

hyn i'w ddisgwyl, beth mae angen iddynt ei wneud er mwyn helpu eu hadferiad a phwy i gysylltu â hwy os ydynt yn pryderu.

Yn adroddiad 2018, roedd yr adborth a gasglwyd yn uniongyrchol gan gleifion a oedd newydd gael eu rhyddhau o ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd hyn yn rhoi arwydd cynnar y gellid dysgu gwersi o'r ffyrdd o weithio a fabwysiadwyd yno. Ni chafodd y CIC yr un arwydd o'r nifer bychan o bobl a roddodd adborth eleni; roedd y materion a godwyd yn bennaf yn cynnwys pob un o'r 4 ysbyty aciwt.

### **Argymhelliad:**




Mae'r CIC yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd adeiladu ar y gwaith a wnaed gan dîm Gwasanaeth Profiad y Claf a Chyngor i Gleifion (PEAS) yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn ystod 2017/18, lle buont yn casglu adborth yn rheolaidd gan bobl yn dilyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty ynghyd ag oddi wrth y rhai a oedd yn derbyn gofal y tu allan i'r ysbyty.

Pe na bai'r gwaith hwn wedi'i gynnal, byddai'r CIC yn argymhell bod y gwaith hwn yn cael ei ddwyn ymlaen a'i rannu rhwng y Cyfarwyddiaethau fel arfer da.

Dylid nodi bod yr holl argymhellion wedi'u cynnwys yn adroddiad mis Chwefror 2018.

## Troednodyn

Mae'r graffiau'n dangos yr ystod oedran, rhyw a'r ysbyty y dywedodd pobl wrthym amdanynt wrth gwblhau'r arolwg



## Cysylltwch â ni

Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe

Llawr Cyntaf, Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cimla

Castell-nedd

SA11 3SU

Rhif ffôn: 01639 683490

**E-bost:** [swanseabay@waleschc.org.uk](mailto:swanseabay@waleschc.org.uk)

**Gwefan:** [www.communityhealthcouncils.org.uk/sb](http://www.communityhealthcouncils.org.uk/sb)



@swanseabayCHC